Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

*Welsh Language Advisory Panel*

21 Hydref 2024 am 10yb
Cyfarfod Aml-Leoliad

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Swyddogion | | |
| Gwyneth Ayres | GE | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth Graddedig |
| Osian Llywelyn | OLL | Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |
| Catrin Gough | CG | Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| **1.** | Croeso ac Ymddiheuriadau<br><br>Croesawodd Cynghorydd Carys Jones pawb i'r cyfarfod.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gynghorydd Andrew Davies a Chynghorydd Tina Higgins. | |
| **2.** | Fframwaith Rheoleiddio – Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg<br><br>Croesawyd Osian Llywelyn a Catrin Gough o Swyddfa'r Comisiynydd i'r cyfarfod.<br><br>Dechreuwyd drwy sôn am y gwaith sydd wedi cael ei wneud ers dechrau 2024 ar gyd-reoleiddio. Esboniwyd fod cyd-reoleiddio yn ymwneud â, ac ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda sefydliadau rydym yn rheoleiddio.<br><br>Pwysleisiwyd fod angen rhannu gwybodaeth, cynnig cefnogaeth ac arweiniad clir ynghyd ac annog diwylliant agored a thryloyw. Mae angen gweithio gyda'n gilydd i ledaenu arfer dda er mwyn cynorthwyo sefydliadau i allu rhoi arferion ar waith yn ehangach.<br><br>Un darn o waith sydd wedi bod ar waith i gefnogi rheoleiddio yw pennu deilliannau rheoleiddio. Ar ddechrau 2024 nododd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg bwriad i ddatblygu a gosod deilliannau rheoleiddio clir yn ystod 2024.<br><br>Y bwriad drwy gyflwyno'r deilliannau rheoleiddio yma yw, ymysg pethau eraill: | |

- osod safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith
- darparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni
- annog sefydliadau i daro'r cydbwysedd cywir rhwng ffocws ar gydymffurfiaeth caeth a sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg

Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu maent bellach wedi penodi 6 deilliant:

1. Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur
2. Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt.
3. Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
4. Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg y neu weithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd.
5. Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall bobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol y neu fywydau bob dydd.
6. Sefydliadau â threfniadau llywodraethau a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.

Symudwyd ymlaen i drafod y Polisi Gorfodi sydd yn amlinellu sut mae'r Comisiynydd yn ymdrin â chwynion. Mabwysiadwyd y dull o gyd-reoleiddio a gosod cyfres o ddeilliannau rheoleiddio. Un o'r themâu allweddol wrth wreiddio'r dull hwn ydi "Hwyluso ein gwaith ymchwilio a gorfodi".

Bwriad y comisiynydd fydd i ymgysylltu ar Cyngor Sir yn Nhachwedd 2024, dros gyfnod o 8 wythnos. Maent yn awyddus i dderbyn sylwadau a barn oddi wrthym fel awdurdod. Yn dilyn derbyn y cyfnod ymgysylltu'r bwriad yw cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn gynnar yn 2025.

Daethpwyd ar gyflwyniad i ben wrth grynhoi'r camau nesaf:

- Parhau â'r rhaglen hybu cydymffurfiaeth ar gyfer 2024/25
- Diwygio ei Fframwaith Rheoleiddio
- Datblygu Cynllun Hyrwyddo Cydymffurfiaeth newydd ar gyfer cyfnod cynllun strategol nesaf
- Trefniadau monitro newydd ar waith o fis Ebrill 2025.

Diolchodd Cynghorydd Carys Jones i Osian am ei gyflwyniad trylwyr.

Derbyniwyd cwestiwn gan Gynghorydd Peter Hughes Griffiths ynglŷn â sut fod y Comisiynydd yn ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng sefydliadau yn benodol awdurdodau lleol eraill. Esboniodd Osian fod yn rheoleiddio yn seiliedig ar risg o sefydliad i sefydliad. Pwysleisiwyd ei fod yn amrywio yn ddibynnol ar le mae sefydliadau arni yn gyd-destun faint o gefnogaeth a chyngor sydd angen arnynt i gydymffurfio.

| | | |
|---|---|---|
| | Ategodd Gwyneth Ayres bwynt Cynghorydd PHG, gan nodi'r broblem o gysoni a'r bwriad i wneud. Esboniodd Osian fod yna ymdrech yn mynd i fod i gysoni dyletswyddau, er nid oes rhaglen waith wedi cael eu gosod i fynd ar waith, ond yn amserol iddynt edrych ar un.<br><br>Yn ogystal, tanlinellodd GA ein bod fel Cyngor yn derbyn y Fframwaith Rheoleiddio. Bellach mae'r ymateb yn llawer mwy cymesur o ran cwynion.<br><br>Gofynnodd Cynghorydd Carys Jones a oes paneli eraill fel Panel Ymgynghorol y Gymraeg mewn siroedd eraill yng Nghymru. Esboniodd Catrin Gough fod yna baneli a phwyllgorau tebyg ond maent yn amrywio o bob awdurdod. | |
| **3.** | **Adroddiad Cyfrifiad 2021 – Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin**<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad yn benodol ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yn Sir Gâr a baratowyd gan Dîm Data'r Cyngor. Rhannwyd copïau ymlaen llaw gydag aelodau. Mae'r adroddiad at ddefnydd grwpiau cymunedol yn ogystal ag aelodau.<br><br>Esboniodd Llinos Evans fod yna rhai graffiau yn y fersiwn Saesneg yn rhai cyfrwng Cymraeg. Y byddwn yn cysylltu yn ôl gyda'r tîm data er mwyn cysoni cyn gynted â phosib. Yn dilyn hyn, cytunwyd i rannu'r fersiwn terfynol gyda'r aelodau. Y gobaith yw gallu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a danfon at sefydliadau megis y Fforwm Sirol, Cynghorau Tref a Chymuned i nodi rhai fel bod pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa.<br><br>Wnaeth Cyng. SA a Cyng. PHG nodi fod yr adroddiad yn hynod o werthfawr a manwl. Derbyniwyd cwestiwn gan Gynghorydd CJ yn benodol ar gyfer amserlen i'r adroddiad. Ategodd LLE fod y data i gyd ar gael yn gyhoeddus ac felly mae modd i'r aelodau ddefnyddio'r data nawr.<br><br>Cododd Cyng. SA bwynt yn benodol ar dlodi. Esboniodd GA bydd modd i ni ddilyn lan ar y berthynas rhwng y Gymraeg ar dlodi a gwneud ymchwil pellach.<br><br>Tanlinellodd Cynghorydd Jean Lewis bwynt ar wardiau lle wnaethpwyd newid i'r wardiau yn 2022 o ran y ffiniau ac felly gofynnwyd a ydy'r adroddiad yn benodol ar y wardiau newydd neu hen. Esboniodd GA fod y data hwn yn benodol ar sail y wardiau newydd, ond ei fod am wneud ymchwil pellach er mwyn cadarnhau yn iawn.<br><br>Y bwriad yw nawr yw defnyddio'r adroddiad i bwrpas a thargedau bylchau sydd wedi dod i'r amlwg yn yr adroddiad.<br><br>Cytunwyd i baratoi map i arddangos yr LSOS er mwyn eglurai'r wardiau a'i ffiniau. | LLE/SR<br><br>GA<br><br>Tîm Polisi |
| 4. | **Diweddariad Grant Llywodraeth Cymru**<br><br>Derbyniwyd diweddariad ar Gyllid Ychwanegol Llywodraeth Cymru gan Gwyneth Ayres.<br><br>Soniwyd mewn cyfarfodydd blaenorol am yr arian ychwanegol rydym wedi derbyn ac ar ba brosiectau penderfynwyd gwario'r arian ar.<br><br>Darparodd GA esboniad ar gyfer y cynnydd sydd wedi cael eu gwneud ar y prosiectau hyn a gwelir crynhoad byr isod:<br><br>1. Cynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol – Y cyfnod tendr wedi digwydd. Yn dilyn sgyrsiau gyda'r adran Addysg penderfynwyd ail-gyfeirio ychydig o'r arian er mwyn medru cymryd mantais o'r adnoddau drwy'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ganolfan Ddysgu. Bellach, y nod yw i uwch-sgilio staff sydd yn gweithio o fewn yr ysgolion hynny sy'n barod i symud ar hyd y continwwm gan roi cefnogaeth iddynt ryddhau staff.<br><br>2. Cynnal Astudiaeth Dichonolrwydd i gynnal Gŵyl Gerddoriaeth - Bellach wedi bod mas i dendr ac yn cwrdd ar y 30ain o Hydref i ystyried a thrafod y cais sydd wedi dod mewn. Esboniwyd fod dipyn o ddiddordeb ar yr hyn rydym yn ystyried gwneud, er pwysleisiwyd nid ydym eisiau gwneud dim sydd yn mynd i effeithio gwyliau sydd yn bodoli yn barod er enghraifft Gŵl Canol Dref.<br><br>3. Sesiynau cerddoriaeth Cymraeg / dwyieithog mewn tafarndai / lleoliadau cymunedol - Rhywfaint o'r gweithgarwch wedi dechrau a llawer o drefniadau mewn lle ar gyfer y misoedd nesaf er mwyn normaleiddio cerddoriaeth Cymraeg i bawb.<br><br>4. Cefnogaeth i'r adran addysg er mwyn iddynt weinyddu'n fwy fwy'n Gymraeg - Esboniwyd fod yr adran yn mynd drwy dipyn o newid ar hyn o bryd yn dilyn penodiad cyfarwyddwr newydd, Owain Lloyd. Wedi dweud hynny mae gwaith yn mynd ymlaen yn y cefndir ar sut gallwn dynnu mewn adnoddau fel ARFER gyda Phrifysgol Bangor. Edrych yn benodol ar sut gallwn ddarparu fwy o gymorth gydag Owain dros yr wythnosau nesaf.<br><br>5. Cefnogi Tîm Rheoli Pobl gyda datblygu ymhellach Polisi Defnydd Mewnol y Cyngor o'r Gymraeg - Rhaglen Academi Cymru ar gyfer Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog yn benodol ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Trydedd haen.<br><br>6. Grymuso Cymunedau i ddatblygu prosiectau sy'n ymateb i ganlyniadau cyfrifiad 2021 - Y mentrau wedi penodi ardaloedd penodol i edrych ar gyda digwyddiadau a phrosiectau wedi penodi tan Fawrth yn yr ardaloedd hyn.<br><br>7. Astudiaeth ar ddatblygiadau tai- Gwaith yn cael ei wneud gyda'n tîm blaen cynllunio. Angen mynd allan i dendro ar fwriad yw deall mwyaf ar yr y rhesymeg tu ôl i'r tueddiadau o bobl sydd yn symud mewn i'r tai ar ôl iddynt gael ei adeiladu. | GA |
| 5. | Cofnodion cyfarfod 8 Gorffennaf 2024<br><br>Cynigodd Cynghorydd Jean Lewis ei bod yn gofnod cywir ac eiliodd Cynghorydd Sue Allen hyn. | |
| 6. | Unrhyw fater arall<br><br>Trafododd aelodau eu pryder ynglŷn â'r Gerddoriaeth Saesneg sydd yn cael eu chwarae yn Farchnad Caerfyrddin. Esboniodd GA bod trafodaethau am hyn wedi digwydd yn y gorffennol, ond gytunwyd i ddilyn lan ar y mater.<br><br>Dyddiad Gŵyl Ganol Dref - symud y dyddiad wedi cael effaith ar ddigwyddiadau eraill yn y Sir.<br><br>Gofynnodd Cyng. CJ a oes modd apelio enwau lleoedd sydd wedi newid unwaith i benderfyniad i gael eu gwneud. Cytunodd Cynghorydd Carys Jones i ddanfon gwybodaeth ymlaen i Llinos Evans er mwyn iddi ddilyn lan ymhellach. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn dilyn trafodaethau yn ein cyfarfod diwethaf i annog Cynghorwyr i fynychu cyrsiau Cymraeg, gofynnodd Cyng. JL faint o ddiddordeb sydd wedi bod. Cytunodd Llinos i ddilyn lan ar y pwynt gyda’n swyddog dysgu a datblygu, Kelly Morris.<br><br>Cyn dod a’r cyfarfod i ben, trafodwyd y newyddion diweddaraf sef bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Sir Benfro yn 2026. Esboniodd GA fod trafodaeth wedi bod ar waith rhwng Sir Gâr, Sir Benfro a Sir Ceredigion. Bydd safle'r Eisteddfod yn Llantwd sydd ar y ffin i Sir Gâr, ac felly yn awyddus fod y tair sir yn helpu gyda’r trefniadau a pharatoadau. Ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn ceisio cael eglurhad gan yr Eisteddfod o ran disgwyliadau'r awdurdod. Cytunodd GA i gadw nodi unrhyw ddiweddariadau yn ein cyfarfodydd. | |
| 7. | Cyfarfodydd y dyfodol<br><br>▪ Ionawr 20fed | |